*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 87(8) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2026 Rhif

# Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *30 Medi 2026* |

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 87(8) of the Environment Act 1995.*

DRAFT WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No.

# The Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | ***** |
| *Coming into force* | *30 September 2026* |

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 87(8) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2026 Rhif

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003. Maent yn darparu y caiff awdurdod priodol ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â thramgwyddau segura llonydd am symiau o fewn ystod.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod yr ystod honno fel dim llai na £75 a dim mwy na £150. Caiff awdurdod priodol naill ai, o'r ystod honno, osod swm cosb benodedig ar gyfer pob tramgwydd segura llonydd neu osod symiau cosb benodedig sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r tramgwydd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, wrth ddyroddi swm cosb benodedig sy'n gysylltiedig ag amgylchiadau'r tramgwydd, bod rhaid i'r awdurdod priodol nodi'r amgylchiadau sy'n gymwys yn yr hysbysiad cosb benodedig.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu, cyn y caiff awdurdod priodol ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig am dramgwyddau segura llonydd, bod rhaid iddo fod wedi cyhoeddi'r swm neu'r symiau cosb benodedig y bydd yn ei ddefnyddio neu eu defnyddio ar gyfer tramgwyddau yn ei ardal.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod rhaid i'r awdurdod priodol a ddyroddodd y gosb ddefnyddio enillion o gosbau o'r fath at ddibenion: gorfodi a gweinyddu tramgwyddau segura llonydd; cefnogi ac annog gwella ansawdd aer yn yr ardal leol; neu leihau cysylltiad y cyhoedd ag allyriadau trafnidiaeth yn yr ardal honno.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd o dan adran 87(8) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L   C Y M R U   D R A F F T

# 2026 Rhif

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *30 Medi 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 87(1)(c), (2)(c), (2)(o)(ii) a (5)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**) ("Deddf 1995"), a pharagraff 5(1)(f) ac (m) o Atodlen 11 iddi, ac a freiniwyd(**2**) bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 87(7B) o Ddeddf 1995(**3**), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru, pob awdurdod lleol yng Nghymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru, pob Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**4**) a'r cyhoedd.

Yn unol â gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd a gymhwysir gan adran 87(8) o Ddeddf 1995 gosodwyd drafft o'r offeryn statudol Cymreig hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Medi 2026.

---

(**1**) 1995 p. 25. Mae adran 91(1) yn diffinio "prescribed" a "regulations".

(**2**) Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru. Ailrifwyd testun presennol adran 87(2)(o) a mewnosodwyd adran 87(o)(ii) newydd gan adran 24(2)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (dsc 5) ("Deddf 2024").

(**3**) Mewnosodwyd adran 87(7B) o Ddeddf 1995 gan adran 15 o Ddeddf 2024.

(**4**) 2006 p. 42.

**Diwygio Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003**

**2.** Mae Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2003(**5**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 7.

**3.** Yn rheoliad 8 (swm y gosb) yn is-baragraff (b) yn lle "£20" rhodder "y swm a nodir mewn hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 13, na chaiff fod yn llai na £75 nac yn fwy na £150".

**4.**—(1) Yn rheoliad 13 (dyroddi hysbysiad cosb benodedig: tramgwydd segura llonydd) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1).

(2) Ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys oni bai, cyn cyflawni'r tramgwydd, fod yr awdurdod priodol wedi—

(a) gosod, a chyhoeddi, un swm cosb benodedig am bob tramgwydd, neu

(b) gosod mwy nag un swm cosb benodedig, ac yn yr achos hwnnw mae paragraff (3) yn gymwys.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, rhaid i awdurdod priodol osod a chyhoeddi graddfa sy'n nodi pob swm cosb benodedig a'r amgylchiadau pan fo'r swm hwnnw'n gymwys. Gall amgylchiadau gynnwys agosrwydd y tramgwydd at fangre benodol neu fath o fangre.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyhoeddi" yw cyhoeddi ar wefan yr awdurdod priodol."

**5.** Yn rheoliad 16 (cynnwys yr hysbysiad) ym mharagraff (ch) ar ôl "sydd i'w dalu" mewnosoder "a, phan fo rheoliad 13(2)(b) yn gymwys, yr amgylchiadau perthnasol".

**6.** Yn rheoliad 17 (effaith dyroddi hysbysiad cosb benodedig) ym mharagraff (6)(c)—

(a) hepgorer "o £20,";

(b) yn lle "i £40" rhodder "yn ôl 50% o'r swm a nodir yn yr hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 13".

**7.** Ar ôl rheoliad 24 (dyroddi hysbysiadau) mewnosoder—

**"Defnyddio taliadau am gosbau penodedig**

**24A.**—(1) Rhaid i awdurdod priodol ddefnyddio'r symiau y mae'n eu cael mewn cysylltiad â chosbau penodedig sy'n daladwy o dan hysbysiad cosb benodedig a ddyroddir o dan reoliad 13 ar gyfer unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) gorfodi a gweinyddu tramgwyddau segura llonydd o dan y Rheoliadau hyn;

(b) mesurau sy'n cefnogi ac yn annog gwella ansawdd aer yn ei ardal;

(**5**) O.S. 2003/300 (Cy. 42).

(c) lleihau cysylltiad y cyhoedd ag allyriadau trafnidiaeth yn ei ardal.”

*Enw*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 87(8) of the Environment Act 1995.*

D R A F T   W E L S H   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

# 2026 No.

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

# The Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations apply in relation to Wales.

These Regulations amend the Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) Regulations 2003. They provide that an appropriate authority may issue fixed penalty notices in relation to stationary idling offences for amounts from within a range.

These Regulations set that range as no less than £75 and no more than £150. An appropriate authority may either, from that range, set a fixed penalty amount for all stationary idling offences or set fixed penalty amounts that are linked to the circumstances of the offence.

These Regulations provide that when issuing a fixed penalty amount linked to the circumstances of the offence the appropriate authority must state the circumstances that apply in the fixed penalty notice.

These Regulations provide that before an appropriate authority may issue fixed penalty notices for stationary idling offences it must have published the fixed penalty amount or amounts it will be using for offences in its area.

These Regulations provide that proceeds from such penalties must be used by the appropriate authority that issued the penalty for the purposes of: enforcing and administering stationary idling offences; supporting and encouraging air quality improvement in the local area; or reducing public exposure to transport emissions in that area.

The Welsh Ministers’ Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

*Draft Regulations laid before Senedd Cymru in accordance with the Senedd approval procedure under section 87(8) of the Environment Act 1995.*

D R A F T   W E L S H   S T A T U T O R Y   I N S T R U M E N T S

# 2026 No.

# ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

## The Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) (Amendment) Regulations 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *** |
| *Coming into force* | *30 September 2026* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 87(1)(c), (2)(c), (2)(o)(ii) and (5)(a) of, and paragraph 5(1)(f) and (m) of Schedule 11 to, the Environment Act 1995(**1**) ("the 1995 Act"), and now vested(**2**) in them, make the following Regulations.

In accordance with section 87(7B) of the 1995 Act(**3**), the Welsh Ministers have consulted Natural Resources Wales, every local authority in Wales, the Public Health Wales National Health Service Trust, every Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006(**4**) and the public.

In accordance with the Senedd approval procedure applied by section 87(8) of the 1995 Act a draft of this Welsh statutory instrument was laid before, and approved by resolution of, Senedd Cymru.

### Title, coming into force and application

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) (Amendment) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 30 September 2026.

(**1**) 1995 c. 25. Section 91(1) defines "prescribed" and "regulations".
(**2**) The powers conferred on the Secretary of State were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of section 162(1) of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32) those functions are now exercisable by the Welsh Ministers. The existing text of section 87(2)(o) was renumbered, and new section 87(o)(ii) was inserted by section 24(2)(a) of the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024 (asc 5) ("the 2024 Act").
(**3**) Section 87(7B) of the 1995 Act was inserted by section 15 of the 2024 Act.
(**4**) 2006 c. 42.

**Amendment to the Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) Regulations 2003**

**2.** The Road Traffic (Vehicle Emissions) (Fixed Penalty) (Wales) Regulations 2003(**5**) are amended in accordance with regulations 3 to 7.

**3.** In regulation 8 (amount of penalty) in sub-paragraph (b) for "£20" substitute "the amount stated in a fixed penalty notice issued under regulation 13, which must not be less than £75 or more than £150".

**4.**—(1) In regulation 13 (issue of fixed penalty notice: stationary idling offence) the existing provision becomes paragraph (1).

(2) After that paragraph insert—

> "(2) Paragraph (1) does not apply unless, before the commission of the offence, the appropriate authority has—
>
> (a) set, and published, one fixed penalty amount for all offences, or
>
> (b) set more than one fixed penalty amount, in which case paragraph (3) applies.
>
> (3) Where this paragraph applies, an appropriate authority must set and publish a scale that states each fixed penalty amount and the circumstances when that amount applies. Circumstances may include the proximity of the offence to a particular premises or type of premises.
>
> (4) In this regulation, "publish" means publish on the appropriate authority's website."

**5.** In regulation 16 (contents of notice) in paragraph (d) after "may be paid" insert "and, where regulation 13(2)(b) applies, the relevant circumstances".

**6.** In regulation 17 (effect of issue of fixed penalty notice) in paragraph (6)(c)—

(a) omit "of £20,";

(b) for "to £40" substitute "by 50% of the amount stated in the fixed penalty notice issued under regulation 13".

**7.** After regulation 24 (issue of notices) insert—

> **"Use of fixed penalty payments**
>
> **24A.**—(1) An appropriate authority must use the sums it receives in respect of fixed penalties payable under a fixed penalty notice issued under regulation 13 for any of the following—
>
> (a) the enforcement and administration of stationary idling offences under these Regulations;
>
> (b) measures that support and encourage air quality improvement in its area;

(**5**) S.I. 2003/300 (W. 42).

(c) reducing public exposure to transport emissions in its area.”

*Name*
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs, one of the Welsh Ministers
Date